

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/0367/24

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

1 Mawrth 2024

Annwyl Russell

Diolch am anfon adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol atom o'r enw *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25*.

Gweler wedi'i atodi ein hymateb i argymhellion y pwyllgor.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and
Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for
Social Services

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental
Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25*

Mae ymatebion i bob un o'r argymhellion wedi'u rhestru isod.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi copi o'r llythyr a gyhoeddodd i'r Byrddau Iechyd ym mis Rhagfyr 2023 i'w ddefnyddio wrth baratoi eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig priodol. Lle bo'n berthnasol, dylai wneud hyn yn flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi dogfennau cyllideb ddrafft eraill Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Dylwn egluro bod y Fframwaith yn arfer cael ei gyhoeddi bob blwyddyn cyn gohirio'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig fel rhan o'n hymateb i bandemig COVID-19. Wrth aildechrau'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig y llynedd, ac o ystyried yr amgylchedd cynllunio cymhleth sy'n cynnwys adferiad yn dilyn Covid-19 a heriau ariannol sylweddol, penderfynais gyhoeddi'r Fframwaith drwy lythyr Gweinidogol a oedd yn symleiddio'r broses gynllunio ac yn darparu blaenoriaethau mwy eglur. Fodd bynnag, rwy'n croesawu cais y Pwyllgor i mi gyhoeddi Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ac rwy'n cytuno i wneud hynny wrth symud ymlaen.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda byrddau iechyd am ei blaenoriaethau ar gyfer eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-25.

Ymateb: Gwrthod

Mae fy mlaenoriaethau i'w gweld yn Fframwaith Cynllunio'r GIG a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2023. Rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd gyflwyno eu cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd erbyn diwedd mis Mawrth eleni. Ar ôl derbyn y cynlluniau, byddant yn cael eu hasesu'n drylwyr i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion rwyf wedi'u hamlinellu yn y Fframwaith Cynllunio.

Gallaf gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n cyfarfod â byrddau iechyd drwy ddulliau amrywiol er mwyn trafod sut maen nhw'n cyflawni ar gyfer eu poblogaeth leol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys Cyfarfodydd Tîm Gweithredol ar y Cyd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig, cyfarfodydd cyswllt cynllunio a chyfarfodydd polisi penodol.

Yn dilyn penderfyniad ar statws cynlluniau, byddaf yn cyhoeddi diweddariad trwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi diweddariad blynyddol, cyn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, am waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, yr arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod hwnnw, a'r cyfleoedd pellach y mae wedi eu nodi i ategu gwelliant ariannol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd a sefydlwyd ym mis Awst 2023 yn ddull allweddol o gryfhau gwaith ar draws y system. Mae'r Bwrdd yn galluogi graddfa a lledaeniad cyfleoedd ar gyfer gwelliant ariannol ar draws sefydliadau er mwyn cefnogi cynlluniau arbedion lleol. Mae fframwaith a rhaglen waith eglur ar waith ar gyfer y meysydd ffocws allweddol. Rwy'n croesawu'r cyfle i rannu diweddariad blynyddol ar gynnydd y Bwrdd a'i waith, gan wneud hyn yn y dyfodol cyn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn gallu sefydlogi eu cyllid o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2024-25 i 2026-27. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r her i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn ddigynsail, ac mae'r gyllideb ddrafft yn dangos ein bod, fel Llywodraeth, wedi cymryd camau i ddiogelu'r GIG yng Nghymru, a llywodraeth leol, dros feysydd gwariant eraill Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi digwydd yng nghyd-destun heriau sylweddol i gyllid y GIG ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Yn 2023-24, roedd gan y GIG ddiffyg ariannol rhagamcanol sylweddol oherwydd effaith anochel y galw am wasanaethau a phwysau chwyddiant. Roedd y gyllideb ganol blwyddyn a'r datganiad ysgrifenedig ar sefyllfa'r GIG yn amlinellu dyraniadau ychwanegol i'r GIG a fframwaith rheoli sydd wedi'i gyflwyno i'r saith Bwrdd Iechyd ynghyd â Chyfansymiau Rheoli Targed. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud a chamau sylweddol wedi cael eu cymryd yn y GIG eleni er mwyn rheoli'r pwysau sy'n wynebu sefydliadau. Er ein bod wedi gallu dyrannu cyllid ychwanegol, rydym wedi gorfod cyflwyno mesurau a chamau gweithredu i leihau costau hefyd, gan barhau i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol a chanolbwyntio ar flaenoriaethau gweinidogol. Mae pedwar o'r saith bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol ac maent yn rhagweld y byddant yn cyrraedd eu cyfansymiau rheoli targed yn 2023-24. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cadarnhau bod y cyllid ychwanegol o'r flwyddyn hon bellach yn gyllid rheolaidd, ac mae £450m arall wedi'i ddyrannu i gefnogi'r GIG.

Rwyf wedi amlinellu fy nisgwyliaid i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2024-27. Mater i sefydliadau'r GIG yw datblygu eu cynlluniau yn unol â gofynion y Fframwaith Cynllunio ac yn seiliedig ar anghenion eu poblogaeth leol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

O ganlyniad i'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer y MEG Iechyd yn 2023-24, ac yn 2024-25, mae cyllid ychwanegol sylweddol wedi'i ddarparu i'r GIG. Mae'r llythyr dyrannu a'r egwyddorion cynllunio ariannol a sefydlwyd ar gyfer 2024-25 yn cynnwys parhad o'r fframwaith rheoli a gyflwynwyd yn 2023-24, a chydabyddir bod angen gwneud rhagor o gynnydd. Mae'r disgwyliaid hwn wedi'i gyfleu'n glir i'r Byrddau Iechyd, a bydd angen iddynt wneud arbedion sylweddol a gwneud dewisiadau anodd er mwyn gwella'r sefyllfa ariannol ochr yn ochr â'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddarparu.

Bydd cynlluniau pob sefydliad yn cael eu profi'n drylwyr drwy'r broses gynllunio. Os nad yw sefydliadau'n gallu cyflwyno cynllun ariannol cytbwys, yna disgwylir iddynt ddatblygu cynlluniau i wella eu sefyllfa ariannol a datblygu llwybr ar gyfer cydbwysedd ariannol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a'i ystyried fel rhan o'r

broses gynllunio ar gyfer 2024-25, ac ar ôl y broses hon. Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn destun math o uwchgyfeirio ar gyfer cyllid, ac mae mecanweithiau a gweithgarwch uwchgyfeirio clir ar waith sy'n cefnogi'r broses hon, gan gynnwys monitro mecanweithiau i gefnogi cynnydd.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau nad yw pwysau cyllidebol yn arwain at wrthod gwasanaethau i bobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys gofynion penodol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, ac mae'r gofynion hyn yn gosod y fframwaith gweithredu ac atebolrwydd ar gyfer awdurdodau lleol. Trwy hyn mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod fframwaith cyffredinol ar waith ar gyfer sicrwydd a rheolaeth leol a chenedlaethol.

Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar ddata perfformiad a gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Fframwaith Perfformiad a Gwella. Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb blynyddol o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn darparu data ar nifer y bobl y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer, a'r galw am wasanaethau a swyddogaethau. Mae hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu monitro capasiti yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol ac mae'n bwriadu cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol mewn perthynas ag agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol gan fod prosesau casglu data a llunio'r adroddiad blynyddol wedi'u sefydlu ac ar waith eisoes.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau sy'n ymwneud â chynyddu'r cap ar daliadau am ofal cartref.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol aruthrol sydd ar awdurdodau lleol, ac rydym wedi gwrandao ar yr achos posibl dros gynyddu'r uchafswm tâl wythnosol am ofal amhreswyl. Fodd bynnag, byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn, ac ni fyddai unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad yn ofalus. Yna, byddai unrhyw amserlenni gweithredu dilynol yn cael eu rhannu fel rhan o unrhyw gyhoeddiadau a datganiadau ar ôl yr ymgynghoriad. Ar ôl paratoi pecyn ymgynghori, lanswyd yr ymgynghoriad ar 19 Chwefror 2024 a bydd ar agor am gyfnod o 12 wythnos.

Nid oes unrhyw newid i'r uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl yn gysylltiedig â goblygiadau'r Gyllideb Ddrafft, a byddai'r goblygiadau ariannol yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol a'r rhai sy'n derbyn gofal amhreswyl. Byddai asesiadau effaith llawn yn ategu unrhyw benderfyniad i gynyddu'r uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am yr holl feysydd lle mae'n ystyried cynyddu taliadau am ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys yr arian tebygol a fyddai'n cael ei gynhyrchu ac amserlenni dangosol ar gyfer cynigion.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor (Tâl Cleifion Deintyddol – Derbyn)

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol aruthrol sydd ar awdurdodau lleol, ac rydym wedi gwrandao ar yr achos posibl dros gynyddu'r uchafswm tâl wythnosol am ofal amhreswyl. Fodd bynnag, byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn, ac ni fyddai unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad yn ofalus. Yna, byddai unrhyw amserlenni gweithredu dilynol yn cael eu rhannu fel rhan o unrhyw gyhoeddiadau a datganiadau ar ôl yr ymgynghoriad. Mae swyddogion yn paratoi pecyn ymgynghori ar hyn o bryd, a fydd yn cael ei lansio'n fuan, i ofyn am safbwyntiau ar y gwelliant arfaethedig i'r polisi.

Mae amcangyfrifon dros dro sy'n seiliedig ar ddata o 2021-22 yn awgrymu cyllid posibl ychwanegol rhwng y 22 awdurdod lleol o lai na £7.2m y flwyddyn ar sail cynnydd o £15; tua £9.6m ar sail cynnydd wythnosol o £20, a thua £12m o incwm ar sail cynnydd o £25 yr wythnos. Amcangyfrifon dros dro yn unig yw'r rhain, yn seiliedig ar effaith bosibl asesiadau na fydd pobl yn gallu talu'r swm uwch, neu y bydd cost eu gofal yn gostwng islaw uchafswm newydd. Ni fyddai cwmpas llawn buddion ariannu'n cael eu gwireddu nes bod unrhyw newid yn cael ei gyflwyno.

Nid oes unrhyw newid i'r uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl yn gysylltiedig â goblygiadau'r Gyllideb Ddrafft, a byddai'r goblygiadau ariannol yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol a'r rhai sy'n derbyn gofal amhreswyl. Byddai asesiadau effaith llawn yn ategu unrhyw benderfyniad i gynyddu'r uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl.

Tâl Cleifion Deintyddol

Mae taliadau cleifion yn rhan annatod o'r amlen ariannu gyffredinol ar gyfer deintyddiaeth. Mae'r cyllid a ddarparwyd i fyrddau iechyd yng nghyllideb ddrafft 2024-25 wedi cynyddu mwy na £35.5m ers y cynnydd diwethaf i daliadau cleifion ar 1 Ebrill 2019.

Ar hyn o bryd, mae lefelau tâl cleifion yng Nghymru 50-75% yn is nag yn Lloegr. O ystyried yr her ariannol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd a'n hymrwymiad i barhau i fuddsoddi yn neintyddiaeth y GIG, nid oes gennym unrhyw ddewis ond cynyddu ffioedd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Bydd manylion llawn y taliadau diwygiedig ar gyfer cleifion yn cael eu datgelu drwy gyflwyno rheoliadau ar 8 Mawrth 2024 a fydd yn dod i rym wedyn ar 1 Ebrill 2024.

Os yw lefelau gweithgarwch yn parhau i fod yn debyg yn fras i'r hyn a gafwyd yn

2022-23, bydd y newidiadau'n cynhyrchu tua £8m a bydd byrddau iechyd yn gallu buddsoddi'r cyllid hwn yn uniongyrchol yn ôl i wasanaethau deintyddol y GIG.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion am ganfyddiadau gweithgor y Tasglu Hawliau Anabledd ar Fyw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru a'r ymateb; sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r argymhellion, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn aros am argymhellion terfynol gweithgor y Tasglu Hawliau Anabledd ar Fyw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol. Ar ôl i ni dderbyn yr argymhellion hyn, byddwn yn gweithio gyda swyddogion polisi a rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion asesiad Llywodraeth Cymru o lefel y galw am ofal seibiant ledled Cymru a'r cyllid y byddai ei angen i ddiwallu anghenion yr holl ofalwyr di-dâl.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth. Hefyd, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion penodol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, ac mae'r gofynion hyn yn gosod y fframwaith gweithredu ac atebolrwydd ar gyfer awdurdodau lleol. Trwy hyn mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod fframwaith cyffredinol ar waith ar gyfer sicrwydd a rheolaeth leol a chenedlaethol.

Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar ddata perfformiad a gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Fframwaith Perfformiad a Gwella. Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb blynyddol o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn darparu data ar nifer y bobl y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer, a'r galw am wasanaethau a swyddogaethau. Mae hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu monitro capasiti yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) i gynnal adolygiad cyflym o hawliau ac anghenion gofalwyr, sydd wedi'i gyhoeddi yma: [Adolygiad cyflym o sut y cafodd hawliau gofalwyr di-dâl eu cynnal yn ystod ac ar ôl yr ymateb i COVID-19 \(adss.cymru\)](#)

Dangosodd yr adolygiad hwn fod gofalwyr wedi nodi mai gofal seibiant yw'r angen mwyaf arwyddocaol nad yw'n cael ei ddiwallu. Cydnabyddir hyn gan ADSSC ac awdurdodau lleol, er ei bod yn debygol y bydd amrywiadau lleol. Ceir sawl math gwahanol o ofal seibiant: gwasanaethau dydd; gofal seibiant dros nos; seibiant byr a gwyliau, grwpiau cymorth, ac i alluogi rhywun i weithio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r cynllun Seibiant Byr, gan ddarparu £9m o gyllid ar gyfer y cynllun rhwng 2022-25. Mae hwn yn gyllid ychwanegol, sy'n cael ei ddarparu'n rhannol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn rhannol drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fel cynllun grant y trydydd sector. Bwriad y cynllun yw ariannu'r gwaith o ddatblygu a darparu dulliau mwy hyblyg a chreadigol o sicrhau seibiant, er mwyn diwallu anghenion gofalwyr unigol. Mae'r cynllun yn cael adborth cadarnhaol iawn gan ofalwyr ac mae ar y trywydd iawn i ddarparu 30,000 o gyfleoedd seibiant ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Mae'r ymrwymiad ariannol presennol yn cael ei wneud drwy'r gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, hyd at £9m dros dair blynedd (2022-2025).

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi pryd mae'n disgwyl i dargedau ar gyfer lleihau arosiadau cleifion allanol a dileu achosion o arosiadau dwy flynedd am driniaeth gael eu cyflawni.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022 yn nodi'n glir y dyddiadau roeddwn i'n disgwyl i fyrddau iechyd gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau cenedlaethol i leihau arosiadau cleifion allanol ac arosiadau dros ddwy flynedd. Fodd bynnag, nid yw'r cyflymder cyflawni gan y GIG wedi bod yn ddigonol i gyrraedd y targedau a nodwyd.

Gan gydnabod maint yr her, yn enwedig mewn rhai arbenigeddau, gosodais ddau darged carreg filltir fewnol yn 2023-24 er mwyn helpu i leihau nifer yr arosiadau dros ddwy flynedd. Y targed cyntaf oedd i fyrddau iechyd sicrhau bod 97% o'u llwybrau'n aros am lai na dwy flynedd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023. Yr ail darged oedd sicrhau bod 99% o'r llwybrau'n aros am lai na dwy flynedd erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Ers cyhoeddi'r cynllun adfer, rydym wedi gweld 20 mis yn olynol o welliant.

Ym mis Ebrill 2022 pan gyhoeddwyd ein hymrwymiad i leihau arosiadau hir dros ddwy flynedd, roedd gennym dros 68,000 (10%) o'n rhestr aros i glirio. Erbyn mis Tachwedd 2023, mae canran yr arosiadau dros ddwy flynedd wedi gostwng i ychydig dros 3%. Mae GIG Cymru wedi cyflawni yn erbyn agenda lawer mwy heriol. Sefyllfa Lloegr ym mis Ebrill 2022 oedd 12,758, sef dim ond 0.2% o'r rhestr aros yno, ond roedd yr her yn Lloegr yn gwbl wahanol. Ym mis Tachwedd 2023 roedd pump o'r saith bwrdd iechyd eisoes wedi cyrraedd Carreg Filltir mis Rhagfyr 2023, sef sicrhau bod 97% o'r llwybrau'n aros am lai na dwy flynedd. Er nad yw byrddau iechyd Bae Abertawe a Betsi Cadwaladr wedi cyrraedd y targed o 97% ar hyn o bryd (mis Tachwedd 2023), maen nhw wedi gwneud cynnydd wrth leihau arosiadau hir, ond maent yn parhau i wynebu heriau mewn nifer fach o feysydd y maent yn atebol i'w gwella. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi llwyddo i glirio arosiadau cleifion allanol dros 52 wythnos; rhaid i fyrddau iechyd eraill wneud rhagor o waith i wella eu sefyllfa, ac rwy'n parhau i'w dal yn atebol am gyflawni yn erbyn yr ymrwymiad y cytunwyd arno.

Rwyf wedi cydnabod bod byrddau iechyd wedi rhoi blaenoriaeth i gleifion allanol â chanser, sydd wedi lleihau eu capasiti ar gyfer arosiadau mwy arferol. Rwy'n disgwyl y bydd trawsnewidiad ac arweinyddiaeth glinigol y rhaglen gofal a gynlluniwyd yn cefnogi ac yn herio pob bwrdd iechyd i wella'r sefyllfa hon yn 2024-25.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol sydd wedi'i ddarparu ar gyfer gofal a gynlluniwyd yn helpu i dargedu'r gwaith hwn. Rydym yn cydnabod y gallai'r heriau ariannol y mae'r system yn eu hwynebu arwain at bwysau ar adnoddau craidd, ond mae

cyfleoedd cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ychwanegol ar gael hefyd a all gynorthwyo darpariaeth yn y maes hwn.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad hybiau rhanbarthol ledled Cymru, gan gynnwys amserlenni, y buddsoddiad sydd ei angen ac sydd ar gael i gefnogi eu datblygiad, a'r effaith y disgwylir i'r gwaith hwn ei chael ar leihau rhestrau aros.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r GIG yng Nghymru'n darparu nifer sylweddol o wasanaethau ar sail ranbarthol eisoës. Mae'r holl wasanaethau radiotherapi a'r rhan fwyaf o wasanaethau therapi gwrth-ganser systemig yn cael eu darparu trwy dair canolfan ganser ranbarthol. Yn ogystal, mae llawer mwy o wasanaethau llawfeddygol arbenigol yn cael eu darparu mewn un neu fwy o ganolfannau rhanbarthol, gan gynnwys llawdriniaeth gardiothorasig, llawdriniaeth canser yr oesoffagws-gastrig, llawdriniaeth y pancreas a'r afu, yn ogystal â llawdriniaeth gynae-oncoleg. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mwy o ofal arbenigol rhanbarthol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n wydn ac yn bodloni safonau proffesiynol, a bod cleifion yn cael mynediad at driniaeth o'r ansawdd gorau.

Ar hyn o bryd mae wyth safle wedi ymrwymo i ddarparu triniaethau gofal a gynlluniwyd gwarchoddedig, ac maen nhw'n rhan o adnoddau rhanbarthol sydd eisoës ar waith ac yn derbyn cymorth ariannol.

Rhanbarth y De-ddwyrain

1. **Ysbyty Gwynllyw** - Theatrau Aneurin Bevan
2. **CAVOC** - Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
3. **Theatrau gofal llygaid Caerdydd** – Fel gwasanaeth canolfan y De-ddwyrain ar gyfer llawdriniaeth cataract
4. **Ysbyty Tywysog Phillip** – Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Rhanbarth y De-orllewin

5. **Ysbyty Singleton** - Bwrdd Iechyd Bae Abertawe
6. **Ysbyty Castell-nedd Port Talbot** - Bwrdd Iechyd Bae Abertawe
7. **Ysbyty Tywysog Phillip** – Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Y Gogledd

8. **Ysbyty Abergele** – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Ar y gweill - buddsoddiad eisoës wedi'i ddyrannu a chynlluniau'n cael eu datblygu

- Datblygu Llantrisant fel adnodd rhanbarthol yn y De-ddwyrain – darparwyd cyfalaf enedlaethol i helpu i brynu'r tir a'r adeilad. Mae'r cynlluniau i drosi'r safle i ddarparu adnoddau rhanbarthol yn parhau.

- Ysbyty Llandudno ar gyfer gwasanaethau orthopaedeg rhanbarthol yn y Gogledd

Yn ogystal, mae tair canolfan ddiagnostig ranbarthol yn cael eu datblygu trwy'r Bwrdd Diagnostig Cenedlaethol. Bydd y canolfannau hyn yn cynnwys datblygiadau endosgopi rhanbarthol hefyd.

Bydd y Bwrdd Diagnostig Cenedlaethol yn asesu ac yn blaenoriaethu gofynion cyfalaf yn erbyn y cynlluniau er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn erbyn buddsoddiad. Bydd y manylion yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor ar ôl iddynt gael eu hasesu'n llawn.

Mae Datblygiad Llantrisant yn cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac mae'n brosiect uchelgeisiol a fydd yn gwasanaethu ardal y De-ddwyrain gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Amcan gwreiddiol y prosiect hwn yw sicrhau bod y safle'n darparu ar gyfer nifer o arbenigeddau ar un safle 'Gwyrdd' a warchodir er budd cymunedau ledled y De-ddwyrain.

Mae'r amserlen ar hyn o bryd yn golygu y bydd y prosiect yn weithredol erbyn 2026-27, ond mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyflymu'r amserlen er mwyn gwireddu'r manteision a fydd yn deillio o'r buddsoddiad ar y safle cyn gynted ag y bo modd. Yn y tymor byr, mae uned endosgopi symudol yn gweithredu ar safle Cwm Taf eisoes.

Mae £29.4 miliwn wedi'i nodi a'i gytuno i gefnogi'r ganolfan orthopedig ranbarthol yn Ysbyty Llandudno. Bydd y Ganolfan yn gwasanaethu cymuned ehangach gogledd Cymru ac yn darparu 1,900 o driniaethau'r flwyddyn.

Argymhelliad 12*Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol**Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi sut bydd y gyllideb hon yn cyfrannu at ganlyniadau canser gwell i gleifion ledled Cymru.***Ymateb: Derbyn**

Mae darparu gwasanaethau canser yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, ac mae cyllid i adfer gofal a gynlluniwyd wedi'i glustnodi hefyd er mwyn helpu i wella perfformiad gwasanaethau canser, gan gydnabod bod yr un adnoddau (staff, gwelyau a seilwaith) yn cael eu defnyddio i drin llwybrau canser a llwybrau arferol.

Yn ogystal, i gefnogi'r maes blaenoriaeth hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo dyraniad o £2 filiwn am dair blynedd yn olynol er mwyn cefnogi ymyriad sy'n cael ei ddarparu drwy Raglen Gweithrediaeth y GIG ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd er mwyn adfer amseroedd aros ar gyfer y mathau o ganser sy'n wynebu'r heriau mwyaf: mathau o ganser gastroberfeddol isaf, gynaeolegol ac wrolegol.

Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer tîm bach o swyddi cenedlaethol a fydd yn gweithio gyda byrddau iechyd ar sail ranbarthol i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd mewn llwybrau canser. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau i sut mae gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu er mwyn gwella trwybwn ac amseroldeb llwybrau gofal. Er enghraifft, cyflwyno newidiadau llwyddiannus i wasanaethau sy'n gallu gwella amseroldeb gofal. Yn ogystal â phrosiectau cefnogol sy'n helpu byrddau iechyd i gynllunio a goruchwyllo eu gwasanaethau yn well, megis datblygu adnoddau gwybodaeth busnes.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi hefyd gan y rhaglen gofal a gynlluniwyd ehangach a'r rhwydweithiau gweithredu clinigol ym meysydd Llawdriniaeth Gyffredinol, Wroleg a Gynaeoleg, ynghyd â chymorth gan y rhaglen Ddiagnostig Genedlaethol gan gydnabod pwysigrwydd diagnosteg (gan gynnwys patholeg) mewn llwybrau canser.

Bydd tystiolaeth glinigol ac arferion gorau yn sbarduno gwelliannau i'r llwybr. Rhoddir blaenoriaeth yn 2024-25 i gyflwyno'r argymhellion diweddar o'r adolygiadau Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GiRFT) a gynhaliwyd ym meysydd wroleg a gynaeoleg er mwyn cefnogi llwybrau canser a llwybrau arferol.

Y dystiolaeth gynnar o'r cymorth hwn oedd buddsoddiad cyfalaf cenedlaethol gwerth £50,000 i sicrhau y bydd canllawiau GiRFT a NICE ar ddefnyddio laserau TULA ar gyfer canser y bledren ar gael ym mhob bwrdd iechyd yn 2024.

Mae'r rhaglen ar gyfer gofal a gynlluniwyd yn nodi cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer sut y bydd argymhellion GiRFT ar gyfer wroleg a gynaeoleg yn cael eu cefnogi yn 2024-45. Bydd y cynllun yn cael ei ddefnyddio i nodi unrhyw ofynion buddsoddi ategol, a bydd yn rhan o'r broses o flaenoriaethu'r gronfa drawsnewid gwerth £15m drwy Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd ym mis Mawrth 2024.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol mewn gofal a gynlluniwyd (£170m bob blwyddyn) wedi'i glustnodi, ac fel y nodwyd, bydd yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau canser ac arosiadau hir.

Un o'r prif sbardunau i wella darpariaeth fydd cynnydd mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ac er mwyn cynorthwyo'r trawsnewid hwn, bydd buddsoddiad i gefnogi newidiadau yn y llwybr yn cael ei dargedu drwy'r gronfa adfer £15m a nodwyd eisoes.

Bydd cyllid cyfalaf diagnostig yn cael ei ddefnyddio hefyd i helpu i ddarparu gwasanaethau canser, gan ganolbwyntio'n benodol ar achosion busnes endosgopi a phatholeg.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol egluro a fyddai hi'n cynyddu'r 5 y cant o ddyfarniad cyflog a wnaed i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru pe bai cyllid canlyniadol ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ymateb: Gwrthod

Un o egwyddorion pwysig datganoli yw nad yw cyllid canlyniadol yn cael ei neilltuo at ddibenion tebyg mewn llywodraethau datganoledig. Mae ein Cabinet yn asesu ac yn ystyried sut i gael yr effaith fwyaf wrth wneud penderfyniadau cyllido yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru, gan nodi'r pwysau amrywiol perthnasol, gan gynnwys trafodaethau gweithredol ar gyflogau. Pe bai cyllideb yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog yn Lloegr, byddwn i a'm cydweithwyr yn y cabinet yn ystyried sut y gellir trosglwyddo'r rhain i staff GIG Cymru, gan gynnwys proffesiynau meddygol a deintyddol dan gontract.

Argymhelliad 14*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol**Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu ffigurau ar gyfer amcangyfrif o'r gost o gynnig codiad o 1 y cant ychwanegol i staff meddygol a deintyddol yng Nghymru. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, nodwn nad yw hwn yn gynnig sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.***Ymateb: Derbynn**

Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, nodaf mai'r unig fwriad yw darparu ffigurau ac nad yw'n gynnig i gynyddu'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff meddygol a deintyddol yng Nghymru ar gyfer 2023-24. Mae'r Corff Cydnabyddiaeth Ariannol Meddygon a Deintyddion (DDRDB) wedi argymell dyfarniad cyflog o 6% ar gyfer meddygon a deintyddion. Yn ogystal â chynnydd o 6%, roedd hefyd yn argymell cynyddu pwyntiau cyflog cyfunol meddygon iau £1250.

Byddai'r costau o gyflwyno argymhellion DDRDB yn llawn ar ben y dyfarniad o 5% sydd eisoes wedi'i roi eleni yn costio tua £21.8m yn ychwanegol yn gylchol (mae hyn yn cynnwys yr 1% ychwanegol a'r swm £1250 cyfunol ar gyfer meddygon iau).

Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd o 1% yn unig ar gyfer staff meddygol a deintyddol yn cyfateb i £13.2m yn gylchol. Dyma'r manylion ar gyfer meddygon a deintyddion:

- Ymgynghorwyr: £5.5m
- Meddygon arbenigol ac arbenigwyr cyswllt: £1m
- Meddygon iau (1%): £2.9m
- Codiad cyfunol £1250 meddygon iau: £8.6m
- Ymarferwyr meddygol cyffredinol: £1.8m
- Ymarferwyr deintyddol cyffredinol: £2m

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am gost y gweithredu diwydiannol diweddar ar gyfer byrddau iechyd, o ran staffio a hefyd o ran lefelau gweithgarwch.

Ymateb: Derbyn

Roedd Meddygon Iau yng Nghymru ar streic am 72 awr rhwng 7am ddydd Llun 15 Ionawr a 7am ddydd Iau 18 Ionawr. Er ein bod yn gallu darparu manylion cychwynnol am effaith y streic bob dydd, ni fydd gwybodaeth derfynol sydd wedi'i chadarnhau ar gael tan ar ôl y cyfnod gweithredu diwydiannol. Gan fod hwn yn streic lawn gan Feddygon Iau, roedd byrddau iechyd wedi sicrhau bod ymgynghorwyr a meddygon arbenigol yn darparu gwasanaeth brys/argyfwng.

Cafwyd effaith sylweddol ar wasanaethau dewisol. Roedd sefydliadau GIG Cymru wedi gohirio/canslo tua 41% o apwyntiadau cleifion allanol. Roedd sefydliadau GIG Cymru wedi gohirio/canslo tua 62% o apwyntiadau am lawdriniaeth.

Roedd dros dri chwarter y meddygon iau a oedd wedi'u hamserlennu i fod yn y gwaith ar streic. Nid oedd unrhyw geisiadau rhanddirymiad brys ac ni nodwyd unrhyw broblemau yn deillio o linellau piced.

Mae GIG Cymru wedi bod yn gweithio i goladu effaith net gyffredinol y gweithredu diwydiannol diweddar gan feddygon iau. Mae sefydliadau wedi bod yn dilysu gwybodaeth er mwyn nodi'r rhai a gymerodd ran a'r rhai na wnaethant gymryd rhan. Mae'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl i nodi'r holl effeithiau a'r union gostau. Mae sefydliadau'n gweithio i gynhyrchu cost net ar ôl ystyried unrhyw ostyngiadau mewn costau, er enghraifft, oherwydd bod lefelau gweithgarwch yn is o ganlyniad i ganslo triniaethau. Mae hyn yn digwydd fel rhan o'u cylch adrodd misol arferol.

Mae'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn deillio o ddatganiadau drafft yn unig, ond mae'n awgrymu y bydd yr effaith ariannol net rhwng £3m a £4m. Bydd yr amcangyfrif hwn yn cael ei fireinio ymhellach unwaith y bydd sefydliadau wedi cwblhau eu dadansoddiad.

Rydym yn disgwyl diweddariad ar drefniadau cyflenwi staff tua diwedd mis Chwefror, ar ôl i fyrddau iechyd gydgrynhoi eu manylion cyflogres.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddal gafael yn y nifer sylweddol o staff sy'n bwriadu gadael y sector gofal cymdeithasol erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymateb: Derbyn

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo'n llawn i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff yn y sector. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw rhaglenni gwaith sy'n cael eu datblygu i greu'r gweithlu cynaliadwy sydd ei angen arnom yn mynd i arwain at atebion cyflym, ac rydym yn sylweddoli y bydd yn cymryd amser i'r rhaglenni hyn gael effaith ar y gweithlu.

Yn ôl Arolwg y Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd yn 2023, mae 26% o'r gweithlu yn debygol o adael y sector yn ystod y 12 mis nesaf, a 44% yn ystod y 5 mlynedd nesaf. At ddibenion cyd-destun, mae'n bwysig nodi mai 6.5% o'r gweithlu wnaeth ymateb i'r arolwg hwn. Er bod yr arolwg yn darparu gwybodaeth bwysig, eleni oedd y tro cyntaf iddo gael ei gynnal. Bydd yn bwysig adeiladu ar hyn ac annog mwy o bobl i ymateb i'r arolwg nesaf yn 2024 er mwyn cryfhau llais y sector.

Erbyn diwedd mis Ionawr 2024, roedd cyfanswm o bron i 61,000 o weithwyr ar gofrestr y gweithlu. Mae mwy o bobl na'n hamcangyfrifon cychwynnol yn cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu, gan ddangos bod pobl yn parhau i ymuno â'r sector. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y sefyllfa yn anwadal, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i fonitro'r sefyllfa hon.

Mae nifer o raglenni gwaith yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru a thrwy ein nawdd i Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn gwella'r amodau ar gyfer y gweithlu, megis:

- Y fwrariaeth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a fydd yn parhau i gael ei hariannu gennym fel blaenoriaeth yn 2024-25, yn ogystal â Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae dyraniad y grant hwn ar gael i gefnogi awdurdodau lleol, ac mae'n cynnig cyfle i ariannu rhaglenni rhagorol fel y 'cynllun tyfu'ch staff eich hun' sy'n cefnogi cyflogaeth am dâl a hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi'i ariannu. Bydd mwy o fyfyrwyr yn hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol ac yn dechrau gweithio yn y sector yn helpu i ddatrys y problemau o safbwynt adnoddau, ac yn y pen draw byddant yn cefnogi gweithwyr cymdeithasol sydd eisoes yn gweithio yn y sector.
- Mae CLILC yn arwain gwaith sy'n canolbwyntio ar ddulliau cenedlaethol o ymdrin â thelerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Nod y gwaith hwn yw cefnogi a denu unigolion i'r proffesiwn a lleihau faint o staff cymwys sy'n symud oherwydd telerau ac amodau amrywiol.

- Trwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mae undebau, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn nodi pa gamau y gellir eu cymryd i wella telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol, a gwella cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfaedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant drafft ar gyfer y sector gofal cymdeithasol sydd â'r nod o ddarparu cyfleoedd cyflog, dilyniant a datblygiad mwy cyson drwy gyflwyno bandiau cyffredinol ar gyfer rolau ym maes gofal cymdeithasol, sy'n cyfateb i lefelau sgiliau, addysg a chyflog.
- Trwy Canopi, mae Llywodraeth Cymru'n darparu mynediad cyfrinachol a di-dâl at lefelau gwahanol o gymorth iechyd meddwl ar gyfer staff gofal cymdeithasol.

Bydd Cynllun Cyflawni Strategaeth y Gweithlu yn cael ei gyhoeddi'n fuan a fydd yn nodi'n fanylach y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â chadw staff, yn ogystal â chynnydd. Gallwn rannu'r cynllun hwn gyda'r Pwyllgor pan gaiff ei gyhoeddi.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth i ni am y gweithgarwch arfaethedig sy'n cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith o ail-flaenoriaethu Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, ac ymrwymo i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newid pellach arfaethedig yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn

Ar wahân i'r bwriad i ddefnyddio cyllid canlyniadol disgwylidig gan Lywodraeth y DU i gynyddu Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i £45m y flwyddyn unwaith eto, nid oes unrhyw newidiadau eraill yn cael eu cynnig mewn perthynas â'r grant hwn, nac i'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r effaith y bydd y newid yn y gyllideb ddrafft o atal sylfaenol tymor hwy i gymorth ar gyfer gwasanaethau rheng flaen yn ei chael ar iechyd y boblogaeth, a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal. Fel rhan o hyn, dylai hi sefydlu:

- *sut mae cynnydd wrth gyflawni ei nod polisi o symud mwy o adnoddau allan o ysbytai tuag at ofal sylfaenol a chymunedol yn cael ei fesur, a*
- *pha bryd mae hi'n disgwyl bod mewn sefyllfa i gyfeirio mwy o adnoddau at ataliaeth tymor hwy.*

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Er gwaethaf y cyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus, mae cyllideb 2024-25 yn parhau i fuddsoddi mewn nifer o flaenoriaethau atal ledled y GIG. Mae hyn yn digwydd trwy weithgarwch pwrpasol i fynd i'r afael â gordewdra ac ysmegu a chefnogi sgrinio a brechu, er enghraifft, ac mae'n rhan o wasanaethau craidd ledled iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyllid yn 2024-25 ar gyfer rhaglenni fel ein Strategaeth Cymru Iach: Pwysau Iach yn parhau i fod ar lefelau tebyg i'r hyn a gafwyd yn 2023-24.

Er mwyn mesur cynnydd *Cymru Iachach* a datblygiad gwasanaethau ataliol yn y gymuned, mae angen i ni fesur allbynnau, fel faint yn fwy o bobl sy'n gallu cael mynediad at ofal cartref a gofal yn y gymuned, a gostyngiadau mewn derbyniadau i'r ysbyty. Yr hyn sy'n bwysig yw bod angen i ni fesur canlyniadau hefyd, gan gynnwys i ba raddau y mae pobl yn derbyn cymorth i gadw'n iach yn eu cartrefi a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r gwaith i ddatblygu'r mesur Diwrnodau Iach yn y Cartref yn mynd rhagddo.

Cymru Iachach yw ein cynllun hirdymor o hyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n disgrifio ein bwriad i roi pwyslais cynyddol ar atal. Mae'r ansicrwydd ynglŷn â'n setliadau ariannu ar gyfer y blynyddoedd i ddod, sy'n dibynnu ar unrhyw Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y DU, yn ei gwneud hi'n anodd hysbysu'r Pwyllgor am flaenoriaethau buddsoddi mwy hirdymor ar hyn o bryd.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Yn unol â'n dyheadau mwy hirdymor, rydym wedi ymrwymo o hyd i wella sut rydym yn ymgorffori ac yn dangos gwaith ataliol, a byddwn yn ystyried pa newidiadau eraill rydym yn eu gwneud fel rhan o'n hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a'r gwaith ehangach ar Gynllun Gwella'r Gyllideb. Drwy Gynllun Gwella'r Gyllideb byddwn yn amlinellu, ar yr adeg briodol, diweddariadau i'n dull o ymgorffori gwaith ataliol yn ein proses gyllidebu.

Fel rydym wedi'i amlinellu, mae hwn yn faes gwaith cymhleth a mwy hirdymor. Nid yw atal yn ymwneud â chwantwm cyllid yn unig – mae'n ymwneud â sut mae cyllid yn cael ei wario hefyd. Mae diffinio canlyniadau gwariant o safbwynt atal yn gymhleth, yn enwedig os yw gwariant yn fuddiol i sawl maes, a allai olygu bod sawl math o weithgarwch atal gwahanol yn digwydd mewn un buddsoddiad.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant nodi'r gwasanaethau, y rhaglenni neu'r mentrau a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf yn sgil peidio â rhoi'r £15 miliwn o gynnydd ar gyfer iechyd meddwl, a'r effaith debygol y bydd hyn yn ei chael ar ganlyniadau iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd fwyaf agored i anghydraddoldebau.

Ymateb: Derbyn

Yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol, rydym wedi parhau i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn iechyd meddwl a llesiant. Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud arbedion ar gyllidebau canolog er mwyn diogelu buddsoddiad a lleihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen.

Rydym yn rheoli absenoldeb y cynnydd arfaethedig trwy ddiogelu buddsoddiad mewn meysydd allweddol, er enghraifft gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl, a'r Rhaglen Iechyd Meddwl Strategol, ond yn arafu cynnydd mewn meysydd eraill. Byddai hyn yn cynnwys cynlluniau peilot, yn ogystal â chael llai o hyblygrwydd i ymateb i bwysau neu geisiadau am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi rheoli absenoldeb y cynnydd arfaethedig wrth ddatblygu ein [Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol](#) (a'n [Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio](#)) ar sail y ddealltwriaeth y bydd strategaethau'n helpu i ddarparu adnoddau yn y meysydd blaenoriaeth. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol ac mae'n gyfle i fod yn glir am yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig. Hefyd, rydym wedi canolbwyntio ar anghydraddoldeb a sut y gallwn hyrwyddo mynediad, profiad a chanlyniadau teg i bawb. Mae'r dogfennau hyn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac mae'r dolenni wedi'u hymgorffori uchod. Bydd y dolenni hyn yn cael eu rhannu'n eang er mwyn rhoi cyfle i bobl lywio ein blaenoriaethau yn y dyfodol.

Wrth ddatblygu'r strategaethau drafft, rydym wedi ystyried eu heffaith, er enghraifft, ar blant a phobl ifanc, y Gymraeg, pobl â nodweddion gwarchoddedig, a phobl sy'n byw mewn tloidi. Rydym wedi cyhoeddi asesiadau effaith drafft fel rhan o'r ymgynghoriad a byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad i gasglu rhagor o dystiolaeth yn ymwneud ag effaith.

Bydd cynllun cyflawni yn cyd-fynd â'r strategaeth a gyhoeddir, a bydd yn cael ei adnewyddu a'i ddiweddarau yn ystod oes y strategaeth. Bydd hyn yn cynnig cyfle i nodi buddsoddiadau newydd pe bai'r sefyllfa economaidd yn newid.

Bydd goblygiadau ariannol yn cael eu cadarnhau fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth derfynol.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant roi ffigurau i ni ar gyfer y gwariant gwirioneddol gan fyrdau iechyd unigol o ran y cyllid sydd wedi ei neilltuo ar gyfer iechyd meddwl.

Ymateb: Derbyn

Mae Byrddau Iechyd yn darparu gwybodaeth bob blwyddyn am gostau gwasanaethau a amsugnir yn llawn, a byddaf yn gofyn i'm swyddogion ymgynghori â chydweithwyr Gweithrediaeth y GIG er mwyn ystyried beth y gellir ei ddarparu bob blwyddyn.

Hefyd, mae'n werth nodi bod rhagamcan o wariant blynyddol gan gyllidebau rhaglenni'r GIG ar gael ar hyn o bryd ar wefan StatsCymru. Mae hyn yn cyflwyno costau wedi'u hamsugno'n llawn ar draws amrywiaeth o arbenigeddau'r GIG, ar gyfer pob un o sefydliadau'r GIG.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth am sut mae'r dyraniadau cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn alinio â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei llythyr ym mis Rhagfyr 2023 at fyrddau iechyd i lywio eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-25. Wrth wneud hynny, dylai nodi unrhyw newid a wnaed i gynlluniau gwariant neu ddyraniadau cyfalaf blaenorol.

Ymateb: Derbyn

Ar y cyfan, mae gan y dyraniadau cyfalaf ar gyfer sefydliadau amseroedd arwain hir o safbwynt drafftio achosion busnes cadarn a chyfnodau datblygu dros nifer o flynyddoedd.

Fodd bynnag, mae'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn llythyr mis Rhagfyr 2023 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu meysydd gwariant cyfalaf yn 2024-25. Mae'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF) wedi neilltuo £70m ar gyfer gwasanaethau anacíwt sy'n cael eu darparu mewn cymunedau lleol. Mae'r cyllid yn cynnwys gwaith parhaus ar gynlluniau Dwyrain Casnewydd a Sunnyside (Pen-y-bont ar Ogwr) yn ogystal â chymorth parhaus i ddarparu cyflenwad o gynlluniau cadarn. Bydd y buddsoddiad o £14m a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gwelliannau i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn gwella profiad cleifion ar y safle hwn. Mae £14m arall yn cael ei ddarparu i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar gyfer y cynllun Lloeren Radiotherapi yn Ysbyty Nevill Hall sy'n gysylltiedig â gwasanaethau canser yn nes at adref. Mae cyllid ar gael i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ddatblygu'r ganolfan orthopedig yn Ysbyty Llandudno a fydd yn ymdrin â llawer o achosion nad ydynt yn rhai cymhleth er mwyn mynd i'r afael ag amseroedd aros heriol yn y maes hwn. Mae cyllid ar gael hefyd i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gwblhau'r Achos Busnes Llawn ar gyfer yr Uned Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion yn Ysbyty Glan Clwyd.

Yn ogystal â'r meysydd hyn sydd wedi'u targedu, mae buddsoddiad yn parhau mewn mesurau Atal Tân a gwaith lliniaru sy'n gysylltiedig â phresenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC).

Y cynllun cyfalaf unigol mwyaf o hyd yw'r buddsoddiad parhaus i adnewyddu Safle Ysbyty Tywysog Charles.

Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG gynnwys eu blaenoriaethau cyfalaf yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-27.

Bydd yr uchod yn cael eu cyflawni trwy ddefnyddio'r dyraniad cyfalaf gwerth £400m ar gyfer 2024-25.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r gweithgareddau, y deilliannau a'r canlyniadau i wella seilwaith digidol a chynhwysiant fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y toriadau i gyllid y strategaeth ddigidol Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'r gyllideb cynhwysiant digidol. Dylai hyn gynnwys asesiad o:

- *oblygiadau'r toriadau i'r cymunedau hynny sydd fwyaf mewn perygl o allgau digidol, sy'n fwy dibynnol ar wasanaethau iechyd yn cael eu trawsnewid yn ddigidol, ac*
- *effaith debygol y toriadau hyn ar anghydraddoldebau o ran mynediad pobl at wybodaeth iechyd a gwasanaethau teleiechyd.*

Ymateb: Derbyn

Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynais cyn cyfarfod y pwyllgor wedi darparu rhywfaint o naratif ar gyfer yr argymhelliad hwn; fodd bynnag, rwyf wedi ehangu ar hyn isod.

Mae cynhwysiant digidol wedi'i amlinellu yn y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel un o chwe chenhadaeth graidd Llywodraeth Cymru; darpariaeth ddigidol o'n gweledigaeth graidd er mwyn helpu pobl yng Nghymru i fyw bywydau hapusach, iachach a hirach trwy gyfrwng gwasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a gaiff eu hadeiladu ar sgiliau, partneriaethau, data a phlatfformau digidol gwell. Mae'n un o alluogwyr allweddol Cymru iachach ac mae'n parhau i fod yn rhan greiddiol o'n strategaeth ddigidol.

Mae rhyngweithiad y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ag aelodau'r cyhoedd sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn uwch na'r cyfartaledd, ac yn aml mae hyn yn gorgyffwrdd â mathau eraill o allgáu cymdeithasol ac anfantais.

Mae Cwmpas, drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru, yn cefnogi dull Llywodraeth Cymru o sicrhau cynhwysiant digidol drwy gymryd rhan mewn nifer o raglenni trawsnewid digidol a ariennir yn genedlaethol.

Hyd yn hyn, mae dros 41,000 o bobl wedi derbyn cymorth i wella eu hyder digidol diolch i staff a gwirfoddolwyr sydd wedi darparu cymorth i ddinasyddion sy'n gweithio gyda 24 o sefydliadau, ac maen nhw wedi helpu dros 1800 o staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i fod yn fwy hyderus yn ddigidol.

Bu swyddogion yn gweithio'n agos gyda Cwmpas i leihau effaith y gostyngiad mewn cyllid o fis Ebrill 2024 ymlaen. Mae rhaglenni gwaith yn cael eu datblygu a'u cytuno bob blwyddyn yn unol â'r amlen ariannu a ddarperir. Mae adnoddau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer pedwar maes thematig yn hytrach nag ar gyfer lleoedd penodol a oedd yn digwydd o dan y drefn flaenorol. Y meysydd thematig yw: pobl hŷn, preswylwyr tai cymdeithasol, cymunedau lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr) ac iechyd o safbwynt dinasyddion a staff. Bydd gwaith penodol sy'n gysylltiedig â lansiad beta Ap GIG Cymru yn dod i ben.

Mae dull thematig y cynlluniau'n canolbwyntio ar ffordd strategol o wella gallu sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gweithgarwch cynhwysiant digidol a datblygu setiau sgiliau pobl sy'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Byrddau Iechyd a sefydliadau'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar iechyd lleol er mwyn gwreiddio cynhwysiant digidol fel elfen sylfaenol o'n gwaith digidol.

Mae hyn yn gyson â'n hangen i gryfhau'r broses o brif ffrydio cynhwysiant digidol mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a hwyluso lledaeniad arferion gorau ymhlith grwpiau proffesiynol; mae hyn yn cynnwys gofyniad i ddeall yn iawn anghenion defnyddwyr gwasanaethau, a sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau, gan gydnabod a chyfrannu at [7 nod llesiant Cymru](#).

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw effaith ddisgwyliedig ar wasanaethau teleiechyd na mynediad pobl at wybodaeth iechyd. Er bod y broses o ddefnyddio gwasanaethau teleiechyd Cymru gyfan yn datblygu, megis dechrau mae'r gwaith mewn gwirionedd.